Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

14 Mai 2020

Annwyl Lywydd,

Y Bil Masnach: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Mae ein pwyllgorau wedi cynnal ystyriaeth gychwynnol ar y Bil Masnach a materion cysylltiedig yn ymwneud â chydsyniad deddfwriaethol. Yr wythnos diwethaf, gwnaethom ysgrifennu ar y cyd at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i gael eglurhad ynghylch nifer o bwyntiau.

I ganiatáu digon o amser i'r Gweinidog ateb, ac i'n pwyllgorau drafod ei hymateb, ysgrifennwn i ofyn am estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach.


Ein dealltwriaeth ni yw nad yw'r Bil wedi cael Ail Ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin hyd yma, ac felly mae'r Bil yn y camau cynnar o ran craffu yn Senedd y DU.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Diolch ichi am roi sylw i'r cais hwn.

Yn gywir,



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol



Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.